Berfau

- Mae **berf** yn disgrifio gweithred e.e. rheolais, meddyliaist, prynaf.
- Mae **berf** yn dangos **pwy** sy'n gwneud rhywbeth a **phryd** mae'n digwydd. e.e.

BERF		**PWY?**	**PRYD?**
rheolais	⟹	fi	(Gorffennol) / Wedi digwydd.
meddylia	⟹	ti	(Presennol) / Digwydd 'nawr.
gwisgai	⟹	fe/hi	(Amherffaith) / Arfer digwydd yn y gorffennol.
aeth	⟹	e/hi	Gorffennol.

- Byddwch yn ofalus pa **derfyniad** (diwedd) rydych yn ei roi ar ferf:

Rhedais e **X**	**>**	**Rhedodd e** **✓**		**Roedd fi** **X**	**>**	**Roeddwn i** **✓**
Cerddodd fi X	**>**	**Cerddais i** **✓**		**Roedd nhw** **X**	**>**	**Roedden nhw** **✓**
Aeth fi **X**	**>**	**Es i/Euthum i ✓**		**Daeth fi** **X**	**>**	**Des i/ deuthum i ✓**

Yn lle dweud:		**defnyddiwch:**
Gwnaeth fi gweld	>	Gwelais (i)
Gwnes i symud	>	Symudais (i)
Gwnaeth fe gyrraedd	>	Cyrhaeddodd (e)
Gwnaeth hi brynu	>	Prynodd (hi)
Gwnaeth ni mynd	>	Aethom (ni)

- **<u>Byddwch yn ofalus</u>** wrth ddefnyddio amser gorffennol y berfau: mynd, <u>dod</u>, <u>cael</u>, <u>gwneud</u>.

MYND			**DOD**	
Es i/ Euthum i	Aethom ni		Des i/ Deuthum i	Daethom ni
Est ti/ Aethost ti	Aethoch chi		Dest ti/ Daethost ti	Daethoch chi
Aeth e/hi	Aethon nhw		Daeth e/hi	Daethon nhw

- **<u>Berfau amhersonol</u>**:

Mae'r rhain yn gorffen gydag **<u>–ir</u>** ac **<u>–wyd</u>**.

Maen nhw'n cael eu defnyddio wrth ysgrifennu adroddiadau (papurau newydd, gwyddonol).

Maen nhw'n cael eu defnyddio wrth ysgrifennu'n FFURFIOL.

Fformiwla:

BERF AMHERSONOL > BETH > GAN BWY > PRYD

e.e. Ysgrifennwyd // llythyr // <u>gan</u> Reolwr y Banc // ddoe.

Presennol (-ir)	**Gorffennol (-wyd)**	**Presennol (-ir)**	**Gorffennol (-wyd)**
clywir	clywyd	gosodir	gosodwyd
gwelir	gwelwyd	rhoddir	rhoddwyd
ceir	cafwyd	ychwanegir	ychwanegwyd

Pwyntiau pellach i'w cofio am y berfau:

Mae ysgrifennu stori fer yn rhoi cyfle gwych i ddefnyddio berfau gorffennol, ochr yn ochr gyda'r berfau amherffaith:

- **GORFFENNOL i gyfleu digwyddiadau dramatig:**

ais i > sgrechiais i	**on ni > rhedon ni nerth ein traed**
aist ti > taflaist ti	**och chi > sylloch chi'n syn**
odd e/hi > trywanodd e	**on nhw > gwylion nhw'r cyfan**

- **AMHERFFAITH i ddisgrifio, a chyfleu teimladau:**

wn i > teimlwn i; credwn i (roeddwn i'n teimlo/credu)	**ai e/hi > teimlai ef (roedd e'n teimlo) disgleiriai'r lleuad … llifai'r afon …**